



# CYSWLLT Y PRIF WEITHREDWR

**Annwyl gydweithiwr,**

**11/10/2022**

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, rydym wedi bod yn canolbwyntio ar gwblhau'r manylion yn ein cynllun i oroesi'r gaeaf mor ddiogel â phosibl, gyda'r nod o sicrhau bod gennym y capasiti a'r gwydnwch ar y cyd i fynd i'r afael â'r heriau rhagweladwy sydd o'n blaenau. Byddwch eisoes yn ymwybodol bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi symud BIP Caerdydd a'r Fro i "fonitro uwch" yr wythnos ddiwethaf, sef y lefel isaf o uwchgyfeirio a chymorth fel rhan o drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth GIG Cymru. Roedd y penderfyniad hwn yn unol â fframwaith GIG Cymru ac fe'i rhagwelwyd o ganlyniad i'r her ariannol sy'n ein hwynebu a'n hanallu presennol i gyflwyno cynllun sy'n ariannol gytbwys.

Er ein bod yn siomedig gyda'r penderfyniad, rydym yn ei dderbyn yn llawn a byddwn yn parhau i weithio gyda chydweithwyr ar y meysydd a nodwyd i wella ein sefyllfa ariannol yn gyffredinol a statws ein cynllun a elwir yn IMTP. Rydym mewn cyfnod heriol wrth i ni barhau i lywio effaith lawn COVID-19 ac mae'r galw ar wasanaethau yn parhau i fod yn uchel iawn. Byddwn yn gweithio ar fynd i'r afael â'r ffactorau ysgogi sydd wrth wraidd y diffyg ariannol ac mae angen i ni ganolbwyntio ar wella effeithlonrwydd tra'n sicrhau ansawdd y gofal i gleifion a'ch profiad chi o weithio ar draws y Bwrdd Iechyd.

Mae gennym ddigon i fod yn gadarnhaol yn ei gylch, rwy'n teimlo'n angerddol iawn am y tîm anhygoel sydd gennym yma yn BIP Caerdydd a'r Fro ac mae llawer iawn y gallwn ni i gyd fod yn falch ohono – rydych chi i gyd yn gwneud gwaith eithriadol mewn amgylchiadau heriol iawn.

Ddydd lau diwethaf gwnaethom hefyd gyhoeddi newidiadau i ganllawiau COVID-19, sy'n dal i gylchredeg yn yr ardal. Rydym bellach yn dechrau gweld yr effaith yn yr ysbytai a'r lleoliadau cymunedol, felly cefnogwch ni i amddiffyn cleifion a phobl agored i niwed yn ein cymunedau yn ogystal â chi'ch hun, eich anwyliad a'ch teuluoedd trwy ddilyn y canllawiau hyn. Rydym wedi gwneud y penderfyniad anodd ond angenrheidiol i leihau nifer yr ymweliadau i un ymwelydd fesul claf bob dydd er mwyn helpu i leihau lledaeniad y feirws. Rhaid i ymwelwyr hefyd wisgo gorchuddion wyneb, oni bai eu bod wedi'u heithrio. Mae canllawiau staff ynghylch cyfarpar diogelu personol a phrofi hefyd wedi cael eu diweddarau.

Y ffordd orau o amddiffyn eich hun yw manteisio ar y cynnig i gael y dos atgyfnerthu COVID-19 a'r brechlyn rhag y fflw y gaeaf hwn os ydych chi'n gymwys. Bydd hyn yn helpu i leihau'r lledaeniad ac amddiffyn eich hun a'r rhai o'ch cwmpas. Os na allwch ddod i'ch apwyntiad dos atgyfnerthu COVID-19 gallwch

aildrefnu drwy lenwi ffurflen ar ein gwefan neu drwy ffonio'r llinell trefnu apwyntiadau ar 02921 841234.

Diolch i gydweithwyr a fynychodd y sesiwn Holi ddydd Gwener diwethaf a oedd yn archwilio'r Argyfwng Costau Byw ac a alluogodd drafodaethau cynhyrchiol a defnyddiol ynghylch sut y gallwn ni fel sefydliad helpu i leddfu'r straen ar gydweithwyr a'r gymuned ehangach. Bydd recordiad yn cael ei rannu'n fewnol trwy Sharepoint felly os na wnaethoch chi lwyddo i fod yn bresennol ar y diwrnod, gallwch wyllo eto ar adeg sy'n gyfleus i chi. Mae biliau ynni cynyddol, costau tanwydd a chwyddiant ar ei uchaf ers 40 mlynedd sy'n golygu ein bod ni i gyd yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd o ran ein gwariant ac felly rwy'n gobeithio bod y sesiwn hon wedi bod yn ddefnyddiol wrth rannu'r ffyrdd y gallwch chi gael gafael ar gymorth - boed hynny drwy sesiynau cyngor ariannol, drwy gael budd-daliadau staff a gostyngiadau i leihau cost eitemau hanfodol, neu drwy gymorth lles i'r rhai sy'n teimlo'n bryderus yn ystod y cyfnod anodd hwn. Diolch i chi eto am fynychu ac am rannu eich awgrymiadau ar sut y gallwn gefnogi ymhellach; bydd pob un ohonynt yn cael eu hystyried.

Diolch i chi am eich ymrwymiad ac am barhau i weithio trwy gyfnodau mor anodd. Rwy'n credu bod gennym dîm talentog, medrus ac ymroddedig yma yn BIP Caerdydd a'r Fro ac rwy'n falch o'r gwaith rydym yn ei wneud sy'n canolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gleifion, y gymuned leol a chydweithwyr.

Dymuniadau gorau  
Suzanne

## Uned Endosgopi Symudol yn cynyddu gweithgarwch diagnostig y Bwrdd Iechyd

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi dechrau ar nifer o brosiectau arloesol i helpu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad a'r rhestrau aros o fewn gwasanaethau diagnostig. Mae'r tîm Endosgopi wedi parhau i wneud cynnydd rhagorol gyda sawl prosiect sy'n hwyluso cynnydd yn ein gweithgarwch diagnostig.

Yn fwy diweddar, mae'r uned endosgopi symudol newydd wedi creu capasiti ychwanegol o fewn gwasanaethau endosgopi diagnostig yn Ysbyty Athrofaol Llandochau. Mae timau megis Endosgopi, Gastroenteroleg, Deallusrwydd Iechyd a Digidol, a Chyfalfaf, Ystadau a Chyfleusterau, wedi gweithio ar y cyd ag Endosgopi InHealth i agor yr uned sy'n galluogi cleifion i gael mynediad amserol at wasanaethau diagnostig.

Mae Endosgopi InHealth yn darparu endosgopi o 12 clinig ledled y DU ac mae ganddo sawl safle o fewn y gwasanaeth sydd wedi'u hachredu gan y Grŵp Cyngori ar y Cyd ar Endosgopi GI (JAG). Ar 25 Gorffennaf, dechreuodd yr uned symudol o'r radd flaenaf weld cleifion, gan gynyddu ein capasiti i gyrraedd cleifion a lleihau eu hamseroedd aros.

Comisiynwyd yr uned mewn menter ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, gydag uned union yr un fath wedi'i lleoli yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yng Nghasnewydd. Mae'r prosiect yn enghraifft arall o sut mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth i wella mynediad at wasanaethau iechyd ar draws de Cymru. Bydd yr uned yn Ysbyty Athrofaol Llandochau

yn gweithredu saith diwrnod yr wythnos a bydd 12 claf ychwanegol y dydd yn cael eu gweld ar gyfartaledd.

## Taith rithwir y Cynllun Pobl a Diwylliant

Lansiwyd y Cynllun Pobl a Diwylliant ym mis Ionawr 2022. Mae'n nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y tair blynedd nesaf, gan ganolbwyntio'n glir ar wella lles, cynhwysiant, gallu ac ymgysylltiad ein gweithlu. Fel Bwrdd Iechyd rydym wedi ymrwymo i fod yn 'lle gwych i hyfforddi, gweithio a byw'. Mae angen i ni ddenu, hyfforddi, symud a datblygu staff er mwyn cynyddu eu potensial a diwallu anghenion iechyd a gofal ein poblogaeth.

Mae'n amlwg bod y system iechyd a gofal cymdeithasol gyfan yn parhau i fod o dan bwysau sylweddol, gyda llif cleifion yn un o'r heriau mwyaf, ond rydym yn ffodus i fod â chymaint o gydweithwyr hynod broffesiynol, ymroddedig a brwdfrydig sydd, er gwaethaf hyd yr ymateb i'r pandemig a heriau eraill, yn parhau i fod yn wydn ac yn dal yn awyddus i addasu ac arloesi er mwyn gwella profiad cleifion a dinasyddion, yn ogystal â phrofiad eu timau a chydweithwyr.

Gwyddom ei bod yn bryd gwneud pethau'n wahanol ac mae'r Cynllun Pobl a Diwylliant yn rhoi cyfeiriad, blaenoriaethau a gwelliannau i'n gweithlu ar hyn o bryd ac i'r dyfodol. Rydym yn falch iawn o gyflwyno ffordd newydd o gael profiad o'n Cynllun. Mae Taith Rithwir y Cynllun Pobl a Diwylliant yn adnodd ymdrwytho sy'n eich cyflwyno i'r [saith thema allweddol](#) ar ffurf animeiddiad. Mae'n nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud ac yn darparu mwy o wybodaeth gefndir a dolenni i fwy

o wefannau, fideos ac ati nag yn y llyfryn a gyhoeddwyd. Darperir y wybodaeth mewn ffordd hygyrch, yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gallwch ddewis p'un ai i archwilio'r cynllun cyfan neu ymchwilio i feysydd penodol o ddiddordeb.

Byddem yn annog cydweithwyr i dreulio amser yn bwrw golwg dros y daith rithwir a darganfod mwy am ein huchelgeisiau a sut rydym yn bwriadu eu cyflawni.

## BIP Caerdydd a'r Fro ar y trywydd iawn i gwblhau Siarter Teithio Iach Caerdydd

Yr wythnos diwethaf, gwnaethom ymuno â llofnodwyr eraill Siarter Teithio Iach Caerdydd mewn digwyddiad dathlu i nodi'r cynnydd a wnaed o ran cefnogi cydweithwyr ac ymwelwyr i gerdded, seiclo a dewis trafniadaeth gyhoeddus, er gwaethaf yr holl heriau a wynebwyd dros y tair blynedd diwethaf.



Drwy gefnogi cydweithwyr i deithio'n fwy cynaliadwy, mae sefydliadau llofnodwyr yn helpu i wella iechyd a lles staff a phartneriaid yn ogystal â lleihau llygredd aer a lleihau allyriadau carbon. Mae teithio'n gynaliadwy hefyd yn aml yn rhatach na defnyddio car, felly gall fod yn

help ychwanegol yn ystod yr argyfwng costau byw presennol. Anogir cleifion, cydweithwyr ac ymwelwyr BIP Caerdydd a'r Fro i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus neu ddefnyddio'r gwasanaeth Parcio a Theithio am ddim sy'n lleihau nifer y cerbydau sy'n dod i'r safleoedd. Gall cydweithwyr hefyd ymuno â'r cynllun Seiclo i'r Gwaith neu fanteisio ar y Beiciau OVO sydd wedi'u lleoli o fewn, neu'n agos at, y safleoedd mwy.

Cyhoeddwyd y saith sefydliad cyntaf i gwblhau Siarter Teithio lach Caerdydd yn y digwyddiad yn Neuadd y Ddinas yn ogystal â'r rhai a fydd wedi cwblhau'r Siarter erbyn diwedd mis Rhagfyr 2022, gan gynnwys BIP Caerdydd a'r Fro.

Lansiwyd Siarter Teithio lach Caerdydd yn 2019. Mae'r Siarter yn cyd-fynd â chyfres o ymyriadau eraill sy'n cael eu rhoi ar waith yng Nghaerdydd i wneud teithio'n iach yn opsiwn hawdd, fel gwelliannau i drafndiaeth gyhoeddus gan gynnwys Metro De Cymru, buddsoddi mewn llwybrau seiclo ar wahân o ansawdd uchel, ac ehangu parthau 20mya.

Dywedodd Dr Tom Porter, Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus yng Nghaerdydd a'r Fro, ac arweinydd Teithio Llesol Cymru: "Gyda thystiolaeth newydd yn dod i'r amlwg bob dydd o ddifrifoldeb newid yn yr hinsawdd, a'r brys sydd arnom i weithredu, mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom i leihau ein hallyriadau carbon. Ochr yn ochr â'r manteision i'n hiechyd ein hunain ac ansawdd aer, mae dewis cerdded, seiclo neu fynd ar drafndiaeth gyhoeddus yn hytrach na defnyddio'r car yn un o'r pethau pwysicaf y gallwn ei wneud. Hyd yn oed os yw golygu un diwrnod yr wythnos i ddechrau, mae'r cyfan yn cyfrif. Drwy ei gwneud yn haws i staff ac ymwelwyr ddewis cyfnewid, mae'r sefydliadau a gyhoeddwyd heddiw yn arwain y ffordd."

Dywedodd y Cynghorydd Huw Thomas, Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, "Cymerwyd camau enfawr dros y tair blynedd diwethaf i ymgorffori teithio llesol yn y sector cyhoeddus yng Nghaerdydd a'i gwneud yn haws i staff newid i gerdded, seiclo a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus wrth deithio i'r gwaith. Rhaid i'r gwaith hanfodol hwnnw barhau, a bydd yn parhau. Mae trafndiaeth yn gyfrifol am 41% o allyriadau carbon Caerdydd, ond gallai hanner yr holl deithiau yn y ddinas gael eu seiclo'n gyfforddus mewn 20 munud neu lai, gyda manteision sylweddol i iechyd pobl a'r blaned."

Hefyd yn y digwyddiad, cyhoeddwyd Siarter Teithio lach 'Lefel 2' newydd. Mae'r mesurau yn y Siarter Lefel 2 lawer yn fwy uchelgeisiol a phellgyrhaeddol na'r Siarter wreiddiol, ar gyfer sefydliadau sydd am ddangos eu harweiniad wrth hyrwyddo teithio cynaliadwy.

[Mae rhagor o wybodaeth am y Siarter Teithio lach ar gael yma.](#)

## Cymeradwyaeth i gyfraniad y prentis Olivia i'r Bwrdd Iechyd

Llongyfarchiadau i Olivia Headley-Grant sydd wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobr Prentis Sylfaen y Flwyddyn yng Ngwobrau mawreddog Prentisiaethau Cymru 2022. Cyhoeddir yr enillwyr mewn seremoni wobrwyo rithwir ar 10 Tachwedd.

Dywedodd Cath Doman, Cyfarwyddwr Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol: "Mae Olivia yn serennu oherwydd ei gwaith caled, ei hymrwymiad, ei gwydnwch wrth wynebu newid a'i pharodrwydd i sicrhau cyflawniadau gwell. Rydym yn dîm ac yn GIG

gwell oherwydd y rôl hanfodol y mae Olivia yn ei chwarae.”

Ymunodd Olivia, sy'n 18 oed ac yn dod o'r Barri, â thîm y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol o fewn cynllunio strategol fel prentis yn ystod y pandemig a chwblhaodd Brentisiaeth Sylfaen City & Guilds mewn Gweinyddu Busnes, a gyflwynwyd gan Goleg Caerdydd a'r Fro, ym mis Tachwedd y llynedd.



Mae'r gwobrau'n tynnu sylw at gyflawniadau rhagorol cyflogwyr, prentisiaid ac ymarferwyr dysgu yn seiliedig ar waith yn ystod amseroedd digyngsail.

Caiff y gwobrau, uchafbwynt y flwyddyn ar gyfer prentisiaid, cyflogwyr a darparwyr ac ymarferwyr dysgu yn seiliedig ar waith, eu trefnu gan Lywodraeth Cymru a'u cefnogi gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW). Y prif noddwr am y drydedd flwyddyn yw Openreach.

Ariennir y Rhaglen Brentisiaethau gan Lywodraeth Cymru gyda chymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

I gael rhagor o wybodaeth am recriwtio prentis, ewch i: [llyw.cymru/prentisiaethau-dewis-doeth](https://llyw.cymru/prentisiaethau-dewis-doeth)

## Mis Ewyllysiau Am Ddim



Eleni, mae haelioni ein rhoddwyr Rhodd mewn Ewyllys wedi helpu i ariannu cyfleusterau o'r radd flaenaf sy'n cefnogi lles cleifion a staff. Gall Mis Ewyllysiau Am Ddim fod yn gyfle i feddwl am sut yr hoffech chi gael eich cofio. Y mis hwn byddwn yn rhannu ffyrdd y mae Rhodd mewn Ewyllys yn cefnogi gwasanaethau gofal iechyd, yn ogystal ag opsiynau ar gyfer rhoddion er cof. [Cliciwch yma i gael mwy o wybodaeth.](#)

## Llongyfarchiadau i Liz Powell ar ei her plymio o'r awyr

Llongyfarchiadau i Liz Powell a wnaeth blymio o'r awyr a chodi swm anhygoel o £1,065 ar gyfer yr Uned Arennol! Gan brofi nad ydych chi byth yn rhy hen i neidio o 12,000 troedfedd, nŵl ym mis Ebrill 2022, fe wnaeth Liz blymio o

---

awyren a disgyn drwy'r cymylau ar 120mya am 45 eiliad. [I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch yma.](#)

## **Llinell Amser 200 mlynedd Ysbyty Brenhinol Caerdydd**

Trwy gyllid gan Loteri'r Staff yn Elusen Iechyd Caerdydd a'r Fro, mae Rhaglen y Celfyddydau ar gyfer Iechyd a Lles yn falch o greu llinell amser i adlewyrchu 200 mlynedd o ofal iechyd wedi'i drefnu yn cael ei ddarparu yn ardal De a Dwyrain Caerdydd, sydd bellach yn cael ei arddangos yn y coridor Therapiau yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd.

Mae'r llinell amser yn dilyn taith yr ysbyty ers 1822 wrth iddo symud i nifer o leoliadau, o safle cyntaf Cardiff Dispensary ar Working Street, Yr Aes ac yn y pen draw, i safle presennol Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Mae'r llinell amser yn cofnodi digwyddiadau, cyflawniadau a newidiadau arwyddocaol a ddigwyddodd yn yr ysbyty drwy gydol y cyfnod hwn. [Ewch i'r ddolen hon i gael rhagor o wybodaeth](#)